tafod elái

MEDI 2022

Rhif 370

Pris £1

Côr y Byd, Eisteddfod Llangollen

Llongyfarchiadau i Gôr CF1 o dan eu harweinydd, Eilir Owen Griffiths, Capel Llanilltern, ar ennill gwobr Côr y Byd.

Hwyl Eisteddfod Tregaron

Grŵp Dawns Stepio Adran Bro Taf yn fuddugol

Côr Hen Nodiant yn fuddugol

Charlotte Kwok enillydd y Rhuban Glas Offerynnol dan 19 oed

Cynrychioli Cymru

Llongyfarchiadau enfawr i Nia Powell o flwyddyn 10 Ysgol Llanhari ar gael ei dewis i gynrychioli tîm athletau Cymru mewn Pencampwriaeth ym Melfast yn ystod mis Gorffennaf. Bu'n brofiad bythgofiadwy i Nia a gwych gweld ei llwyddiant mewn pencampwriaethau pellach dros yr Haf.

Gŵyl Rhyngwladol

Ym mis Gorffennaf bu Parti'r Efail yn cymryd rhan yng Nghyngres Telynau'r Byd mewn noson yn Eglwys St Teilo, Amgueddfa Sain Ffagan. Noson i'w chofio.

£10

Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.

Gofynnwn i chi fynd i wefan tafodelai.cymru a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.

Diolch i chi am eich cefnogaeth.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Hydref
i gyrraedd erbyn
23 Medi 2022

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Sara Davies

Dyweddiad:
Llongyfarchiadau i Sioned Scott, merch Eluned a Dennis o Feisgyn, ar ei dyweddiad i Oliver Holden. Cyfarfu'r ddau pan oeddent yn fyfyrwyr yn Rhydychen ac erbyn hyn mae nhw'n byw yn Storrington, Gorllewin Sussex. Mae Sioned yn Rheolwr Logisteg a Strategaeth gyda chwmni Rolls Royce yn Goodwood.

Mae Oliver yn Gyd-gyfarwyddwr Cwmni Logisteg Tulpin yn y Pencadlys yn Horley, Surrey. Dymuniadau gorau i chi'ch dau.

Llongyfarchiadau:
Llongyfarchiadau i Ela Edwards o'r Groes-faen, sydd wedi'i phenodi yn gyd-Brif Swyddog yn Ysgol Gyfun Llanhari am y flwyddyn ysgol 2022/2023. Pob dymuniad da i ti, Ela!

Digwyddiadau yn Llantrisant:
Cynhelir Ffair Oesoedd Canol ar Lawnt y Castell ar Ddydd Sadwrn y 3ydd o Fedi a Dydd Sul y 4ydd o Fedi rhwng 11 o'r gloch y bore a 5 o'r gloch y prynhawn. Bydd amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys arddangosfeydd o ornestau brwydro llaw a saethyddiaeth.

Darlith:
Yn Neuadd y Dref ar nos Iau y 6ed o Hydref am 7.30 yr hwyr ceir darlith yn dwyn y teitl 'Pam cofio Tryweryn?' Traddodir y ddarlith gan Gareth Thomas. Mae tocynnau ar werth am bump punt yr un. Mae modd archebu dros y ffôn 01443 449111.

Croesfan yn y Groes-Faen
Mae trigolion y Groes-faen yn parhau i ddisgwyl clywed pryd yn union y bydd y gwaith yn dechrau ar greu croesfan pâl yng nghanol y pentref. Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnig symud cyffordd Y Parc ymlaen ychydig gamau i fewn i'r A4119, a fydd yn cael ei chulhau er mwyn gwella mesurau diogelwch.

Cadarnhawyd bod cyllid wedi'i neilltuo beth amser yn ôl i fwrw 'mlaen â'r gwaith a chafwyd croeso brwd gan drigolion y pentref i'r cynlluniau. Hyd yn hyn fodd bynnag, ni chyhoeddwyd unrhyw newyddion pellach gan y Cyngor.

Yn y cyfamser gwelwyd cynnydd sylweddol yn llif y drafnidiaeth drwy'r pentref yn dilyn yr holl adeiladu yng Nghapel Llanilltern, Rhydlafar a Gogledd Orllewin Caerdydd.

Hir yw pob aros!

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Colli Gary
Gyda chalon drom y rhennir y newyddion i ni golli Gary Samuel yn blygeiniol fore Llun y 18fed o Orffennaf. Brwydrodd Gary yn ddewr ac yn siriol yn erbyn tostrwydd enbyd. Gwelir ei golli gan gymaint. Estynnwn freichiau cariad allan i Beth, Rhodri, Hari, Emily, Natalie a Grace nawr ac i'r dyfodol. Cynhaliwyd angladd Gary yng Nghapel y Wenallt, Caerdydd ar Awst y nawfed lle daeth torf enfawr ynghŷd i dalu eu ffarwel ola i gyfaill arbennig. Diolch i Colin am englyn teimladwy er cof am Gary -

Gary Sam
Ei rawg, bu'n un llawn rygbi - yn Gymro,
ei gamre'n ddireidi;
a Rhiw Fawr fydd nawr i ni
yn gaer i goffáu Gary.

Graddio
Mae Daniel Calan Jones o Creigiau wedi graddio fel Ffisiotherapydd o Brifysgol Birmingham. Mi fydd Daniel yn gwirfoddoli gyda'r tîm meddygol yn ystod Gemau'r Gymanwlad sydd yn cael eu cynnal yn Birmingham rhwng yr 28ain o Orffennaf a'r 8fed o Awst cyn dechrau ar ei swydd gyntaf gyda'r GIG/NHS ym mis Medi.

Llongyfarchiadau mawr, Daniel a joia'r profiadau ddaw i'th ran cyn dechrau yn y byd gwaith go iawn!

Graddio
Llongyfarchiadau mawr, Daniel Angell ar raddio mewn Daearyddiaeth (BSc) llynedd (2021) o Brifysgol Abertawe, ond oherwydd covid cynhaliwyd y Seremoni mis Gorffennaf eleni.

Ar hyn o bryd mae Daniel yn astudio gradd meistr mewn 'Deinameg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd'/ 'Environmental Dynamics & Climate Change' ym Mhrifysgol Abertawe. Pob lwc gyda rhan nesa'r daith Daniel.

Graddio
Llongyfarchiadau mawr i Rhys Davies, Creigiau ar raddio eleni o Brifysgol Southampton. Cafodd Rhys ei seremoni raddio mis Gorffennaf yn stadiwm pêl droed y 'Saints' yn Southampton. Enillodd radd BSc mewn Busnes ac mae bellach yn chwilio am swydd. Pob lwc Rhys, gobeithio y daw rhywbeth dy ffordd yn fuan!

Daniel Angell

Rhys Davies

Cofio Gary

Roedd Amlosgfa Thornhill yn orlawn ar gyfer angladd Gary Samuel, Creigiau, dydd Mawrth 9 Awst. Roedd y gwasanaeth cofio dan ofal Dr Rowland Wynne ac Emlyn Davies gydag Ieuan Jones ar yr organ a chlywyd recordiau gan Gôr Hen Nodiant a Chôr Meibion Taf.

Talwyd teyrnged ar ran y teulu gan Hari, ŵyr Gary, sydd ar fin mynd i'r Brifysgol. Roedd Hari yn gwerthfawrogi'r arweiniad roedd wedi cael gan Gary ac roedd am sicrhau na fyddai'n cael ei gofio mewn tristwch a galar ond am ei gariad, digrifwch a direidi.

Aeth Hari ymlaen i ddweud, "Bu'n ysbrydoliaeth i bob un oedd yn ei adnabod a daeth a hapusrwydd i ni i gyd. Roedd ganddo'r ddawn i wneud i bobl deimlo'n well gyda'r wên hoffus a geiriau o ddoethineb a chariad. Etifeddodd ei wyres, Grace, yr hiwmor a'r cariad ac yn aml bu'r ddau ohonynt yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth a chanu gyda'i gilydd. Anodd yw meddwl am Gary heb feddwl am Bethan (Gu) ac roedd eu cariad yn amlwg hyd y diwedd. Gu oedd cannwyll ei lygaid a chanolbwynt ei fywyd. Rwy'n siŵr y byddai Gary am ddiolch i Beth am fod yn graig iddo ac am roi popeth er ei fwyn. Yn sicr dyn teulu oedd Gary ac roedd ar ei hapusach ymhlith ei deulu - amser o chwerthin, hwyl a chariad.

Cafwyd cerdd hyfryd gan Grace i gloi teyrnged y teulu.

Cyflwynwyd yr ail deyrnged gan Huw Llywelyn Davies, cyfaill i Gary -

"Mae'r olygfa o'r gynulleidfa a'r canu yn y gwasanaeth yn rhyfeddol ac yn dweud gymaint am Gary. Am y deng mlynedd diwethaf roeddwn i a Gary wedi sefyll nesaf at ein gilydd mewn dau gôr gwahanol - Côr Meibion Taf a Chôr Hen Nodiant. Wythnos diwethaf roeddem i lawr yn cystadlu yn Eisteddfod Tregaron ac roedd mwy o angerdd yn y canu wrth feddwl fod un o'r hoelion wyth yn eisiau ac roedd 'na fwlch amlwg yn rhengoedd y baswyr.

"Dyn teulu a dyn pobl oedd Gary ac mae'r don o gydymdeimlad i Bethan, Rhodri, Hari, Emily, Natalie a Grace yn dangos pa mor boblogaidd a pha mor werthfawrogol oedd pawb o'i gwmni. Cafodd ei fagu ym mhentref Rhiwfawr, Cwmllynfell wrth droed Mynydd y Gwrhyd. Aeth i Ysgol Ramadeg Ystalyfera lle disgleiriodd gyntaf fel chwaraewr rygbi. Cafodd Gap am ddau dymor yn chwarae i Ysgolion Cymru a'i bartner y tymor cyntaf oedd Maurice Richards ac yna Keri Jones yn yr ail flwyddyn gyda Gerald Davies yn chwarae yn y canol. Efallai nad Gary oedd y cyflymaf meddai Gerald ond roedd yn darllen y gêm yn dda a wastad yn y man cywir ar yr amser cywir.

"Aeth Gary i Goleg Hyfforddi Cyncoed a gyda Keith Davies ac Eifion Price ffurfiodd yr YOBS – Ystalyfera Old Boys Society. Grŵp sydd dal i gwrdd i chwarae golff a chymdeithasu.

"Cafodd ei gêm safon uwch gyntaf i dîm Llanelli - ond yn fuan symudodd i Aberafan ac yna Glyn Ebwy cyn ymuno â Chaerdydd. Yn anffodus iddo ef a sawl mewnwr arall yn y garfan roedd bachan o'r enw Gareth Edwards yn y tîm. Er hynny chwaraeodd Gary dros 100 o weithiau i Gaerdydd. Yna aeth i chwarae am bum tymor i Bontypridd fel mewnwr a chael dylanwad a osododd seiliau i lwyddiant arbennig y clwb.

"Cafodd Gary yrfa ddisglair fel hyfforddwr. Roedd sylwadau chwaraewyr yng Nghaerdydd a Balina, Iwerddon, yn tystio i'w ddawn. Roedd yn rhoi hyder i chwaraewyr ac yn eu hannog i wneud y gorau o'u doniau.

"Bu'n athro yn Ysgol Heol y Celyn a Gary oedd yn gyfrifol am ddechrau Dawnswyr Nantgarw drwy annog athrawon i ddechrau twmpath dawns yn yr ysgol.

"Roedd Gary yn falch o'i wreiddiau, yn Gymro i'r carn ac yn hynod falch o'i deulu. Bu'n ddiacon yng Nghapel Tabernacl Efail Isaf ac roedd ei jôcs a'i sgetsus yn rhan annatod o fwrlwm Clwb y Dwrlyn.

"Mae Clwb Rygbi Pentyrch yn ddyledus i Gary am ei waith fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd anodd diwethaf gyda'i wybodaeth eang a'i gefnogaeth i'r hyfforddwyr a'r chwaraewyr.

Roedd Gary yn ddyn mor gadarnhaol ac er y tristwch a'r galar byddai am i ni glatshio 'mlân.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Croeso adre
Mae Gwenno Rees, merch Geraint a Caroline wedi dod adre at y teulu am wyliau o Tansania. Athrawes yw Gwenno yn Ysgol Ryngwladol Mwanza a bydd yn dychwelyd yno ddiwedd Awst, ar ôl treulio cyfnod yn ymlacio gyda'r teulu a'i ffrindiau yn Efail Isaf.

Dymuniadau Gorau
Dymunwn yn dda i Geraint Rees, Penywaun sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad iechyd buan a llwyr iti.

Yr Ardd Gymunedol
Cafodd aelodau'r Tabernacl ac aelodau'r gymuned leol wahoddiad i alw yn yr ardd Gymunedol yn Y Tabernacl i gasglu rhai o lysiau'r ardd ddiwedd mis Gorffennaf a thrwy fis Awst. Dyna braf oedd cael llysiau ffres o'r pridd. Diolch i'r criw gweithgar sydd mor ddiwyd yn tyfu a chynaeafu'r llysiau.

Y Tabernacl
Colli Gary
Syfrdanwyd holl aelodau'r Tabernacl fore Llun, Gorffennaf 18 pan glywsom y newyddion trist am farwolaeth Gary Samuel yn dilyn cyfnod byr o salwch. Roedd yn aelod ffyddlon yn Y Tabernacl a bu'n Drysorydd gweithgar am gyfnod. Maddeuwch y nodyn personol ond bu Gary, Bethan a Rhodri'n byw drws nesaf i ni am gyfnod a rhaid dweud eu bod yn gymdogion arbennig a chymwynasgar dros ben. Roedd yn gyfnod o hwyl, direidi a chwerthin yn ymestyn yn aml i oriau mân y bore. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Bethan, Rhodri a'r teulu i gyd.

Y Twmiaid
Llongyfarchiadau gwresog i'r Twmiaid a'r Twmiaid Bach am eu cyfraniad i

Y Twmiaid yn yr Aqua Park
ac yn dod i adnabod yr ardal

Ffilmiau Prosiect Denman 2022 Undeb yr Annibynwyr. Thema'r ffilm oedd "Rheswm i Ddathlu" sef cyflwyniad o'r dathlu yn ardal Efail Isaf yn dilyn cyfnod y pandemig. Cafodd y ffilm ganmoliaeth uchel gan y beirniaid am greu ffilm ddifyr a doniol. Diolch i Eleri Mai a'r bobl fu'n cynorthwyo gyda'r gwaith o gyfarwyddo a hyfforddi'r bobl ifanc.

Cafwyd cystadlu brwd mewn amryw o gampau un nos Sul wrth i'r Twmiaid a'r Twmiaid Bach drefnu Mabolgampau. Mabon Rhys ac Ifan Roberts fu'n trefnu'r cystadlaethau heb anghofio Brengain Rhys a Gwenno Roberts a fu'n helpu eu brodyr. Uchafbwynt y noson oedd yr ornest tynnu rhaff.

Trefnodd Eleri Mai wibdaith i rai o aelodau'r Twmiaid iddynt gael ymgyfarwyddo a dod i adnabod eu hardal yn well. Dechreuodd y daith ym Mhontypridd gan ymweld â'r farchnad, Clwb y Bont a chof golofn Evan a James James ym Mharc Ynysangharad. Ymlaen i Barc Gwledig Cwm Dâr a chael cinio yno cyn troi am y Rhondda gan sylwi ar y rhesi ar resi o dai o'r unffurf a oedd yn gartrefi i'r glowyr ar un adeg. Yna cyrraedd Treorci a sylweddoli pam i'r dref gipio'r teitl "Stryd Fawr Orau Prydain" yn 2020. Trafodwyd pwysigrwydd siopa a chefnogi'r siopau lleol. Y bore canlynol ar ôl tacluso a thwtio'r Ganolfan yn Y Tabernacl, aeth y criw i'r Aqua Park ym mae Caerdydd a mwynhau neidio a bownsio ar y cwrs rhwystrau yn y dŵr.

Diolch o galon i Eleri Mai am gynnig y fath ystod o brofiadau i ieuenctid y Tabernacl.

Barbeciw
Does ball ar frwdfrydedd Eleri Mai, ac mi wnaeth hi gyda chymorth aelodau o'r teulu ac aelodau o'r capel drefnu barbeciw fore Sul, Gorffennaf 17eg. Roedd yn fore crasboeth ac mi wnaeth pawb fwynhau'r wledd yn yr Ardd Gymunedol a'r ganolfan.

Mainc Coffa
Mae aelodau'r gynulleidfa Saesneg wedi archebu mainc newydd i'w gosod yn y cwtsh Meddwlgarwch yn yr Ardd Gymunedol er cof am y diweddar Vera Gammon. Bu Vera'n aelod ffyddlon o'r gynulleidfa Saesneg am flynyddoedd lawer a hi hefyd oedd yr organydd yn y gwasanaethau.

Merched y Tabernacl
Fe fydd cyfarfod nesaf Merched y Tabernacl yn y Ganolfan ddydd Gwener, Medi 9fed am hanner awr wedi deg. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Medi
Medi 4ydd Oedfa o dan ofal aelodau'r Twmiaid a chyfle i groesawu ymwelwyr o Wcrain.
Medi 11eg Y Parchedig Aled Edwards
Medi 18fed Dr Nathan Munday
Medi 25ain Y Parchedig Gethin Rhys.

"Rheswm i Ddathlu"

Criw y Mabolgampau

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters

Penblwydd Priodas Aur
Llongyfarchiadau i Allun ac Olwen Warren, Stryd Meadow ar gyrraedd 50 mlynedd o fywyd priodasol ar 1 Gorffennaf. Bu'r ddau yn dathlu ar fordaith ac yna bydd dathliadau gyda'r teulu yn hwyrach.

Pêl-droed
Mae Brooke Evans o'r Heathlands yn chwarae i dîm pêl droed menywod Caerdydd. Mae'n 17 mlwydd oed ac yn chwarae yn safle canolwr. Mae hi'n un o chwe Chymraes sydd wedi eu dewis i gynrychioli tîm Prydain Fawr yng nghystadleuaeth Cwpan Gothia yn Copenhagen. Bu'r tîm yn ymarfer am dridiau cyn cymryd rhan yn y seremoni agoriadol ar 18 Gorffennaf.

PONTYPRIDD

Colofnydd mis Medi- Dilys Davies

Dathliadau
Llongyfarchiadau gwresog i Taome Paige o Bentre'r Eglwys ar ennill gradd dosbarth cyntaf o Brifysgol Caerdydd. Mae Taome wedi derbyn swydd yn Ysgol Gymraeg Pencae Caerdydd i ddechrau ym mis Medi. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Tom Kemp ar ei radd dosbarth cyntaf o Brifysgol Abertawe.

Pob dymuniad da i bawb sydd wedi derbyn gradd yn ystod y cyfnod hwn.

Penblwydd hapus i Eurgain Haf a Lowri Mared ar gyrraedd penblwyddi nodedig, gan obeithio eu bod wedi cael dathliadau bythgofiadwy.

Llongyfarchiadau i Iolo Morgan Jones, gynt o Bontypridd, a Natalie, ar enedigaeth eu merch fach Ffion ar Orffennaf y 25 ain - chwaer fach i Elin a'r drydedd wyres i Lis Morgan Jones Graigwen. Mae'r teulu i gyd wrth eu bodd yn enwedig Elin sy'n ysu i fod yn chwaer fawr.

Cofio Gwenllian
Cynhaliwyd angladd Gwenllian ar Orffennaf yr 20fed yn Amlosgfa Glyntaf. Cafwyd gwasanaeth cofiadwy yng ngofal Y Parch Allan Pickard. Cyfeiriodd at y llu o deynrgedau a ddaeth i law i gofio am Gwenllian - nifer o Lundain ac o Gymru benbaladr. Cafwyd cerddoriaeth gan arwyr Gwenllian sef Rhys Meirion a Dafydd Iwan. Roedd y ddau gapel yng Nglyntaf yn orlawn o ffrindiau a chydweithwyr Gwenllian yn ogystal ag aelodau o'i theulu. Aeth nifer helaeth wedyn i Westy'r Parc Treftadaeth a diolchodd David ei chefnder i bawb am yr holl gardiau o gydymdeimlad a dderbyniodd ef a'i wraig Helen, ac am bresenoldeb cymaint o bobl yn yr Amlosgfa. Bydd colled mawr ar ei hôl yn enwedig ym myd y 'pethe' yn ein hardal.

Merched y Wawr
Ar Orffennaf y 14eg aeth nifer o aelodau cangen Pontypridd am bicnic i Sain Ffagan. Cafwyd prynhawn bendigedig yn cerdded y llwybrau ac yn ymweld â'r adeiladau. Yna cafwyd picnic dan gysgod ac ymlacio wrth ddianc o'r haul tanbaid. Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen am 7.30yh yn festri Sardis ar Fedi'r 8fed. (nos Iau). Bydd Lowri Roberts, gohebydd Chwaraeon y BBC, yn ymuno gyda ni i roi ychydig o'i hanes a straeon o'r byd Chwaraeon.

Bydda'r gangen yn falch iawn o groesawu aelodau newydd a chroeso arbennig i siaradwyr newydd.

Y Clwb Llyfrau
Cynhelir ein cyfarfod nesaf fore Mercher Medi'r 14eg am 11yb yn Llyfrgell Newydd Pontypridd. Croeso mawr i aelodau newydd. Rydym yn trin a thrafod llyfrau Cymraeg a Saesneg.

Colofnydd mis Hydref fydd Siân Ebbsworth. Cysylltwch i roi newyddion o'r ardal.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Penblwydd Hapus
Danfonwn ein dymuniadau gorau i Margaret Roberts wrth iddi ddathlu penblwydd arbennig iawn.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Morfydd a Gareth Huws ar ddathlu eu priodas aur ym mis Awst.

Y Clwb Rygbi
Dyma lun o Gareth Williams yn derbyn cydnabyddiaeth gan Harri Rees wrth ymddeol o bwyllgor Clwb Rygbi Pentyrch ar ôl dros dri degawd o wasanaeth mewn swyddi amrywiol. Mae'n siwr y bydd ar gael pan fydd angen help eto yn y dyfodol. Diolch Gareth am dy holl waith.

Gwobr
Enillydd Gwobr Barddas 2022 ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd Cymru yw Marged Evans (14), wyres Gill a Wyn Rees, Llys y Coed, Pentyrch, a merch Angharad a Marc Evans, Sain Niclas. Testun y gystadleuaeth oedd "Yfory". Mae Marged yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Cyhoeddwyd y canlyniad yn y Babell Lên yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):
Mis Medi 2022:
4 Medi – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Sion
11 Medi - Oedfa dan ofal Alun Wyn Bevan
18 Medi – Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans
25 Medi - Oedfa dan ofal Sian Meinir

Mis Hydref 2022:
2 Hydref – Oedfa Diolchgarwch yr Ysgol Sul (Heulwen a'r plant)
9 Hydref – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
16 Hydref – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths
23 Hydref - Oedfa dan ofal y Parchedig R. Alun Evans
30 Hydref – Oedfa Sul Adferiad dan arweiniad Wynford Ellis Owen

---oooOOOooo---

O fewn dyddiau i ysgrifennu'r erthygl yma, byddaf, gobeithio, yn troi fy nhrem tua de-ddwyrain Ffrainc am ychydig o wyliau.

Ac mae 'na wir edrych ymlaen ar fy rhan i a'r teulu y bydd cwmni awyrennau EasyJet yn cadw ei addewid ac yn fy nghludo yn ddi-dramgwydd i faes awyr dinas Nice!

Cadw addewid a ddywedais, oherwydd fel y gŵyr nifer ohonoch dwi'n siwr, bu trefnu gwyliau a gweld eu gwireddu yn ystod blynyddoedd y pandemig yn gryn orchwyl, ac fe siomwyd nifer helaeth o deithwyr pan ddaeth newidiadau munud olaf i'w trefniadau arfaethedig i'w rhan.

A do, fe'n cyfrifwyd ninnau ymysg y cannoedd, nage, y miloedd rheini a welodd chwalu breuddwydion o gael ymweld a hoff fangre, teulu, neu gartref mabwysedig a fu'n rhan o'n cynysgaeth dros gyfnod helaeth o flynyddoedd, pum mlynedd-ar-hugain yn ddi-dor yn ein hachos ni.

Y llynedd, bu i ni orfod closio at blanhigyn a dyfai yn ein gardd, ond a oedd a'i wreiddiau yn solet yn nhir Ffrainc, i wneud iawn a'r siom!

Mae'r ardal yr ydym yn ymweld a hi yn naturiol yn ardal y gwinllanoedd, ac fe welir rhes ar ôl rhes o'r winwydden yn ffrwytho'n braf yn ystod mis Awst, yn aeddfedu yn haul poeth y tymor, ac yn melysu'n ddidrafferth cyn y cynaeafu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gwin rhosliw ydi prif gynnyrch y rhan arbennig yma o'r wlad.

Ond hefyd fe welir aceri o'r coed olewydd yn y caeau, a'r ffrwyth yn llwythog ar y canghennau, yn barod i'w casglu ymhen mis neu ddau, yn barod i'w wasgu yn olew blasus tua diwedd yr Hydref.

Mae melin hynafol yn y dref yr ydym yn ymweld â hi, ac mae'r cynnyrch yn ennill medalau aur di-rif ymysg y gwybodusion, am ei safon, ei flas a'i liw.

A syndod yn ogystal oedd darganfod mai hen le gwasgu'r olewydd oedd y tŷ yr ydym yn aros ynddo o fewn muriau'r hen dref, ac fe welir hyd heddiw o fewn cwpwrdd ynddo y cogiau oedd yn troi'r sgriw er sicrhau llif ffrydiol o'r olew gwerthfawr yma.

Mae'r gwaith o amaethu'r gwin a'r olew yn galed i'r ffermwyr lleol, ac mae'r gofal a gaiff y planhigion trwy'r flwyddyn yn ennyn syndod a rhyfeddod. Gall yr olew fod yn fwyd moethus neu'n ymborth dyddiol i drigolion y gwledydd lle y tyf, gan hefyd gynnig iachad i'r corff, gan ostwng colesterol yn y gwaed a gwarchod rhag haint ar y galon a strôc.

Ac ie, nid gwinwydden, ond olewydden, sy'n treulio ei bywyd bellach yn ein gardd ni, ac mae cael ei chwmni yn gysur, ac yn galondid o'r mwyaf, pan fydd hud yr haf wedi'n gadael am flwyddyn arall, a'r haul yn dechrau colli ei wres o wythnos i wythnos tan y gwanwyn.

Tydi hi ddim yn syndod o gwbl bod y Beibl yn drwch o son am yr olewydden, o'i lyfr cyntaf hyd yr olaf un.

Does ond angen agor pennod 8 o Genesis i ganfod hanes Noa, a'r golomen honno yn "*dod yn ôl gyda deilen olewydd ffres yn ei phig*" [hwn a'r dyfyniadau sy'n dilyn o Beibl.net]

Yn llyfr Exodus cewch hanes Moses yn cael gorchymyn gan Dduw i ddweud wrth bobl Israel "*am ddod ag olew olewydd pur i ti, fel bod y lampau wedi'u goleuo'n gyson*".

Mae nifer o'r llyfrau'n frith o gyfeiriadau at gyflwyno offrwm – yn aml, bara wedi ei bobi mewn popty pridd – "*defnyddiwch y blawd gwenith gorau… wedi ei gymysgu gydag olew yr olewydd*".

Yn Deuteronomium, cewch gip helaethach ar gynnyrch y wlad –"*lle mae digon o ŷd a haidd, gwinwydd, coed ffigys, pomgranadau, ac olewydd a mêl hefyd*".

Ond gyda'r cyngor canlynol hefyd:- "*Pan fyddwch yn ysgwyd eich coed olewydd i gasglu'r ffrwyth, peidiwch gwneud hynny ddwywaith. Gadewch beth sydd ar ôl i'r mewnfudwyr, y plant amddifad a'r gweddwon*".

Yn ol Llyfr y Barnwyr, cafodd y goeden olewydden ei gwahodd i fod yn frenin ar Sichem, ond atebodd "*ydw i'n mynd i stopio cynhyrchu olew, sy'n bendithio Duw a dynion, er mwyn chwifio'n uwch na'r coed eraill*?"

O na byddai ambell i wleidydd yn gwrando ynte!

Cafodd Saul drochiad o olew'r olewydden gan Samuel fel arwydd o'i eneiniad fel arweinydd pobl Israel. Yr un modd ceir hanes Sadoc yr offeiriad yn "*cymeryd corn o olew olewydd o'r babell ac yn ei dywallt ar ben Solomon a'i eneinio'n frenin*".

Ac yn ôl a welaf, yn Ail Lyfr Samuel y ceir y cyfeiriad cyntaf yn y Beibl at Fynydd yr Olewydd!

Ceir cyfeiriad hefyd yn Llyfr Sechareia, ond perthyn yn bennaf i'r Testament Newydd y mae Mynydd yr Olewydd.

Gweler Efengyl Mathew, Marc a Luc am yr hanes am y disgyblion yn cyrraedd "*Bethffage a Bethania wrth ymyl Mynydd yr Olewydd yn ymyl Jerwsalem"*. Ac wrth gwrs y stori ryfeddol yn Llyfr yr Actau am "Iesu'n mynd yn ôl i'r nefoedd" wedi'r cyfarfod ar Fynydd yr Olewydd.

Bum yn ffodus o gael troedio Mynydd yr Olewydd, a chael gweld y coed olewydd hynafol yng Ngardd Gethsemane - y coed olewydd y bu'r Iesu yn ymochel odditanynt, gan yr honnir eu bod, yn ôl traddodiad, yn tarddu o wraidd y coed gwreiddiol o'r cyfnod. Dyma'r fan lle bu i Iesu Grist, yng nghwmni Pedr, Iago ac Ioan, neilltuo i weddïo wedi'r Swper Olaf. Yma hefyd y bradychodd Jwdas ef a chusan, yma cafodd ei arestio, ac yma y torrwyd clust dde gwas yr archoffeiriad, a'i hadfer, ac oddi yma y dihangodd y disgyblion wedi'r gythrwfl.

A daw'r cyfeiriad olaf at yr olewydden yn y Beibl yn Llyfr y Datguddiad – hanes "Cwymp Babilon" – "…*sinamon a pherlysiau, arogldarth fel myrr a thus, hefyd gwin ac olew olewydd, blawd man a gwenith; gwartheg, defaid, ceffylau a cerbydau; a chaethweision hefyd – ie pobl yn cael eu gwerthu fel anifeiliaid*."

Byd fel yna ydi'n byd ni o hyd mae arnaf ofn.

Gobeithio'n wir y byddwch chi wedi cael haf i'w gofio, boed gartref neu ar grwydr…a gwell byth os bydd coeden olewydden wrth law i'ch cysuro!

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Geraint Evans, awdur y nofel *Hergest*.

Pan ddaw Dr Rodrigo Lewis o Batagonia i dre brifysgol i hel ei achau, fe ddaw o hyd i wybodaeth annisgwyl fydd yn effeithio ar gymuned gyfan.

Beth yw eich gwaith?
Wedi ymddeol nawr ond roeddwn i am dros 35 mlynedd yn ddarlithydd yn Adran Astudiaethau Gwybodaeth Prifysgol Aberystwyth.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?
Dechreuais i fy ngyrfa yn y Llyfrgell Genedlaethol ac am fy mhechodau bum am gyfnod yn Warden Neuadd Pantycelyn, swydd lle dysgais i lawer am fywyd myfyrwyr a mwy am fy hunan.

O ble rydych chi'n dod?
O Landybïe yn ardal lofaol Sir Gaerfyrddin.

Ble rydych chi'n byw nawr?
Tal-y-bont, Ceredigion.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?
Fe gefais i addysg dda o fewn fframwaith draddodiadol Seisnig. Mae fy mhlant a'm hwyrion yn elwa ar y chwyldro mewn addysg Gymraeg.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch?
Athrawon Cymraeg a Saesneg yn Ysgol Ramadeg Llandysul am agor y drws i glasuron y ddwy iaith.

Pa lyfrau ydych chi wedi eu hysgrifennu o'r blaen?
Pedair nofel dditectif wedi'u lleoli o gwmpas Aberystwyth.

O ble daeth y syniad cyn sgrifennu *Hergest*?
Gan fy mod yn edmygydd mawr o awduron fel David Lodge roeddwn i wastad eisiau sgwennu nofel gampws.

Mae byd caeedig prifysgol a'r unigolion sy'n gweithio ynddo yn gallu bod yn ddoniol.

Hefyd mae rhai datblygiadau cyfoes addysg uwch yn haeddu eu dychanu am fod pobol glyfar yn gwneud penderfyniadau twp.

Beth sy bwysicach, cymeriad neu blot?
Rhaid i'r cymeriadau yrru'r plot nid y plot y cymeriadau. Mae hyn yn agosach at realiti.

Beth oedd y broses sgrifennu? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwya?
Dau fwynhad, y syniad a gweithio ar y syniad. Yr her, dal ati a meithrin disgyblaeth. Gallwch syllu ar sgrin wag am oriau. O lunio un paragraff mae hwnnw gyda chi bore wedyn.

Beth sy'n gwneud stori dda?
Symud effeithiol, cysondeb ac osgoi bod gormod o gymeriadau yn y stori. Os yw rhywun yno ond am ddwy dudalen, pam mae ef/hi yno o gwbwl? Sicrhau bod pob cymeriad yn cyfri.

Pa mor bwysig yw lleoliad yn eich nofelau?
I fi mae'n bwysig iawn. Rwy'n hoff o baentio darlun mewn geiriau gyda phob darlun unigol yn cyfrannu at y cyfanwaith.

Beth yw eich barn am fyd y nofel yng Nghymru?
Sefyllfa iach. Mae gan y darllenydd ddewis helaeth erbyn hyn o awduron medrus. Gormod o bwyslais efallai ar straeon am iselder/iechyd meddwl ond rwy'n derbyn ar unwaith fod hyn yn adlewyrchu chwaeth yn hytrach na safon.

Pwy yw eich hoff nofelydd? Pam?
John le Carré. Ymdriniaeth feistrolgar â chymeriadau'n brwydro yn erbyn cydwybod. Ym myd tywyll y sbei beth yw ymddwyn yn iawn a beth yw'r hyn sy'n gywir?

Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?
Ni ddechreuais sgwennu tan i fi ymddeol, rhy hwyr efallai, ac rwy'n teimlo'n amal fy anallu i bortreadu sefyllfaoedd cyfoes. Hon yw tasg awduron ifanc talentog. Eu byd nhw yw e a nhw sy'n gwybod amdano fe.

Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?
'Paid â phoeni gormod am sylwadau adolygwyr,' meddai Robat Gruffudd o'r Lolfa.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd
Pasta gyda chig sosej Eidalaidd, caws Parmesan a tsili. Wrth gwrs, potel o win coch o Piedmonte yn yr Eidal.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?
Darllen a cherdded.

Dolen Gwales https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781800992061&tsid=2#top

Hergest, Y Lolfa, £8.99

Cymeriadau Bro'r Eisteddfod

Dyma gyfrol gynhwysfawr sy'n cyflwyno ardal Tregaron a'r cyffiniau gan yr awdur o Landdewi Brefi, D. Ben Rees. Mae'r gyfrol yn gyfoeth o storïau a phortreadau difyr am gymwynaswyr mawr cefn gwlad Cymru.

Mae'r gyfrol 329 tudalen yn disgrifio pentrefi'r ardal ac yn nodi enwogion a fagwyd yno. Yn eu plith mae rhai sydd wedi sefydlu yn yr ardal hon erbyn hyn yn cynnwys Cyril Hughes o Ysbyty Ystwyth a Gwilym Williams o Swyddffynnon. Hefyd y diweddar Gwyn Griffiths o'r Berth.

Gwasg Y Lolfa. Clawr caled: £29.99. Clawr Meddal: £14.99

Gwilym A Williams, yr athletwr a chwaraewr rygbi o fri a chyfaill i'r awdur D. Ben Rees.

Ysgol Pont-Sion-Norton

Hwyl Fawr
Hwyl fawr Blwyddyn 6 a phob lwc i chi ar gyfer y dyfodol! Cofiwch ddod nôl i'n gweld cyn hir. Hwyl fawr a phob lwc hefyd i Mr I Jones, Miss B Cowley a Mrs K Jeffreys wrth iddynt symud ymlaen at gam nesaf eu gyrfaoedd. Croeso mawr i Mrs N Hughes a fydd yn dysgu blwyddyn 3 a 4. Rwy'n siwr y byddi'n ymgartrefi yn gyflym gyda theulu PSN.

Enillwyr
Llongyfarchiadau enfawr i holl enillwyr disgyblion y flwyddyn a Chymry y flwyddyn ar draws yr Ysgol. Llongyfarchiadau hefyd i Rosie Jones am ennill gwobr Blwyddyn 6 Mr Duan Evans ac i Mya Beer am ennill tlws Mrs O'Donnell ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Mya Beer

Gwobrau Blwyddyn 6

Rydych chi i gyd yn esiampl gwych i bawb!

Dangos a Dathlu
O'r diwedd, roedd yn bosibl i ni wahodd y rhieni i mewn i'r Ysgol ar ôl cyfnod hir gyda chyfyngiadau Covid. Daeth y rhieni i'r dosbarthiadau i weld eu gwaith a siarad gyda'r plant am y gweithgareddau yn ogystal â chlywed corau yn canu a sioe ffasiwn crysau-t yn yr Adran Iau. Diolch i bawb a ddaeth ac edrychwn ymlaen at eich gwahodd i mewn eto cyn bo hir.

Ffair Haf
Diolch i Ffrindiau PSN am drefnu BBQ Haf yr ysgol eleni. Roedd yn hyfryd cael hwyl yn yr haul ar iard yr ysgol unwaith eto. Diolch i bawb am gefnogi.

Gwobr Gwyddoniaeth
Llongyfarchiadau i ddosbarth Taf am ennill gwobr gan @ExperiMENTALsci. Mae'r pecynnau gwyddonol yn wych!

Gwobrau Taf

Cwis Garth Olwg
Diolch i Mr Meredith o Ysgol Garth Olwg am drefnu Cwis Clwstwr Garth Olwg. Cafodd y tîm hwyl wrth ateb y cwestiynau amrywiol. Llongyfarchiadau i Garth Olwg am ennill!

Teledu
Aeth blwyddyn 6 i'r stiwdios teledu yn ystod mis Gorffennaf er mwyn cymryd rhan yn y rhaglen Pigo dy Drwyn. Roedd yn brofiad llawn hwyl a chwerthin. Da iawn i'r tîm am eu hymdrechion gwych!

Mabolgampau
Roedd y disgyblion a'r rhieni yn hapus dros ben wrth i ni hefyd allu cynnal Mabolgampau eleni- y cyntaf i nifer fawr o ddisgybllion oherwydd Covid. Fe gadwodd y glaw draw a chafwyd diwrnod bendigedig!

Cylch Meithrin
Mae Cylch Meithrin newydd Cilfynydd a Phont Norton wedi agor yng Nghanolfan Gymunedol Cilfynydd. Gweler y poster ar dudalen 9 am fwy o wybodaeth.

Haf Prysur
Bu'n dymor yr Haf prysur iawn yn yr Ysgol wrth i'r disgyblion fwynhau nifer o brofiadau gwahanol yn cynnwys Parti Ponty, Sioe Twm Sion Cati, Trip Cefn Mabli, Trip i Ynys y Bari a Thripiau i'r Lido. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn mynd ar antur ar fws neu'n cerdded i lawr i Bontypridd i'r Lido. Diolch i Ffrindiau PSN am gyfraniadau tuag at y tripiau ac i'r staff am eu trefnu.

Sioe Twm Sion Cati

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Pwy sy'n cofio?

Aeth dros chwe deg o flynyddoedd heibio ers i mi gychwyn ar fy aelodaeth o'r Sefydliad Ffiseg (Institute of Physics). Ymhlith y manteision cyson dros y cyfnod hwnnw fu derbyn y cylchgrawn misol; yr enw presennol arno yw Physics World. Mae gan y Sefydliad sawl cylchgrawn arall sy'n benodol ei gynnwys i ysgrifau technegol gan arbenigwyr ar gyfer cyd-arbenigwyr mewn maes arbennig oddifewn i ffiseg. Mae Physics World yn fwy cyffredinol, rhai ysgrifau yn lled-dechnegol, rhai yn sôn am yrfaoedd pobl, yn enwedig rhai aelodau a ddechreuodd yn ffisegwyr ond a drôdd at yrfaoedd eraill. Ceir adolygiadau o lyfrau 'poblogaidd', hynny yw, llyfrau a allai fod o ddiddordeb i ddarllenwyr nad ydynt yn ffisegwyr; gall y rhain fod yn anrhegion penblwydd neu Nadolig. Byddaf yn troi'n aml atynt.

Mae rhifyn cyfredol Physics World (Gorffennaf 2022) yn rhoi cryn dipyn o sylw i nodi bod degawd wedi mynd heibio ers y cyhoeddiad syfrdanol (i ffisegwyr beth bynnag) ar y 4ydd o Orffennaf 2012 bod bodolaeth y 'boson Higgs' wedi'i chadarnhau. Geiriau Cadeirydd y gynhadledd, Rolf Dieter Heuer, Pennaeth CERN ar y pryd, oedd 'I think we have it'. CERN yw'r sefydliad ymchwil niwclear yn y Swistir lle cynhelid yr arbrofion allweddol mewn 'tiwb' danddaearol, sy'n gylch (fwy neu lai) gyda diamedr o 27 cilometr (sawl milltir yw hynny?).

Mae boson yn un o deulu'r strwythur sy'n cynnig esboniad ar ddeunydd a natur popeth, boed yn gorff dynol, yn anifail, yn blanhigyn, yn fetel, yn graig, yn nwy, yn hylif, yn ….y cyfan lot. Ers degawdau, daeth y Standard Model, er yn anghyflawn, yn ffefryn ymhlith ffisegwyr oedd wedi brwydro ers blynyddoedd i ddatrys dirgelwch mater. Gyda dyfod boson Higgs daeth ochenaid, bod y colledig wedi'i gael. Rhaid oedd llawenhau.

Bydd rhai o ddarllenwyr y golofn hon yn cofio'r cyhoeddiad yn 2012, yn enwedig oherwydd mai cyfarwyddwr yr anghenfil o offer a gyflawnodd y darganfyddiad – Large Hadron Colllider – oedd Lyn Evans, Cwmbach, Aberdâr. Yn ddiweddar, bu Cymro arall, un o benaethiaid presennol CERN, Rhodri Jones yn sgwrsio ar Radio Cymru am gefndir dathlu'r degawd.

Teg nodi nad Peter Higgs oedd yr unig un i dderbyn clod, gan fod ganddo gwmni ar y daith hir, sef, François Englert (Gwlad Belg). Cyd-enillodd y ddau Wobr Nobel am Ffiseg yn 2013, ond cyfenw Peter sy wedi goroesi i ddisgrifio'r colledig. Pam, tybed?

Yn yr un rhifyn o Physics World mae erthygl gan Robert Crease, athronydd, yn seiliedig ar lun a gyhoeddwyd yn dilyn y dathliad yn dangos Peter Higgs yn y gynhadledd yn sychu deigryn. Mae Crease yn awgrymu bod hyn yn herio'r meddwl cyffredin am ffiseg, sef, ei fod yn weithgaredd ddi-deimlad a hollol wrthrychol a felly hefyd y sawl sy'n ymddiddori yn y pwnc. Mae'n mynd yn ei flaen i gynnig bod ffisegwyr yn profi holl rychwant teimladau emosiynol, gan gynnwys, parchedig ofn, diflastod, dryswch, siom, digalondid, obsesiwn, pwysedd, syndod, sgepticiaeth ac yn y blaen. Mewn gair, mae ffisegwyr yn ddynol.

Ar ddiwedd y gynhadledd ddathlu – 'Diwrnod na fu ei debyg yn hanes ffiseg/A day in physics like no other' yw pennawd arall yn y cylchgrawn, cafwyd sesiwn crynhoi gyda Rolf Dieter Heuer yn llywydd. Estynnodd wahoddiad agored am sylwadau. Mewn ymateb cododd newyddiadurwr ar ei draed, gan ganmol y gwyddonwyr ar eu camp ac ychwanegu ei longyfarchion a'i edmygedd o'r holl ddata, tablau, graffiau a diagramau. Yna fe holodd, 'Gyda hyn oll, yn y diwedd, beth yw'r boson Higgs'? Does dim cofnod o effaith y cwestiwn diniwed, treiddgar hwn ar y dorf, ond cofiaf ddarllen beth ddwedodd y llywydd – 'Does dim metaffor/ There is no metaphor'. Pob clod iddo am ei onestrwydd diffuant.

Ysgol Creigiau

Gwibdeithiau Ysgol
Ym mis Gorffennaf mwynhaodd pob dosbarth wibdaith haf. Aeth dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 i Barc Margam; Blwyddyn 2 i Sw Bryste; Dosbarth 3 i Ogofau Dan yr Ogof; Blwyddyn 4 a 5 i Ganolfan Dŵr Gwyn Caerdydd a Blwyddyn 6 i Ganolfan Hwylio Caerdydd. Cafodd plant bach y Feithrinfa a'r Nursery barti a daeth storïwr i'w diddanu gyda storïau, caneuon a dawnsio. Roedd pawb wrth eu boddau.

Dosbarth 2 yn Sw Bryste

Dosbarth 4 yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Caerdydd

Maint Cymru
Ymwelodd tîm 'Maint Cymru' â ni cyn diwedd tymor, gyda diwrnod o weithgareddau hwyliog ac addysgiadol am gadwraeth coedwigoedd glaw. Roedd pedwar dosbarth: Class 1, Dosbarth 4, Class 5 a Dosbarth 5 wedi cymryd rhan yn y sesiynau, gan ymgymryd â thasgau ymarferol, yn ogystal â thrafod y pethau bach, dyddiol y gallwn eu gwneud i helpu i sicrhau dyfodol ein Byd. Diolch am ymweld â ni Maint Cymru!

Diwrnodau Pontioo Creigiau
Cynhaliwyd pump cyfarfod pontio ar gyfer rhieni a disgyblion yn yr ysgol yn ddiweddar. Diolch yn fawr i'r holl rieni a gofalwyr am gefnogi'r cyfarfodydd a'r ymweliadau - roeddent yn llwyddiannus iawn.

Llwyddiant Sgïo
Bu chwe disgybl o'r ysgol yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Sgïo Ysgolion Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Sgïo Caerdydd. Roedd Lea, Manon, Awen, Wil, Conor a Gwilym i gyd wedi sgïo'n

arbennig o dda ac wedi mwynhau'r profiad yn fawr - llongyfarchiadau i chi gyd!

Parti Ffarwel Blwyddyn 6
Diolch yn fawr i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu Parti Ffarwel bythgofiadwy ar gyfer disgyblion Dosbarth 6 a Class 6. Roeddent i gyd wedi mwynhau'r noson yn fawr ac wedi gwneud atgofion bythgofiadwy gyda'u ffrindiau. Diolch yn fawr i'r holl staff am helpu dathlu eu noson arbennig.

Ymweld â'r Senedd
Ddydd Iau, 15fed Gorffennaf, aeth dau ddisgybl o Ddosbarth 5, Elinor a Lea, i'r Senedd ym Mae Caerdydd. Fel cynrychiolwyr Dosbarth 5 ar ein Cyngor Ysgol, dewiswyd Elinor a Lea i gymryd rhan mewn "Senedd" ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd Cyfrwng Cymraeg

Lea ac Elinor yn mwynhau yn y Senedd

Caerdydd. Y bwriad yw annog annibyniaeth a mentergarwch y disgyblion, a rhoi ystod o gyfleoedd iddynt gydweithio gyda disgyblion o ysgolion eraill ar wahanol brosiectau. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gefnogi'r prosiect a byddant yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o sefydlu'r 'Senedd'. Mwynhaodd Elinor a Lea daith o amgylch y Senedd a lleisio eu barn yn y siambr drafod. Bydd y ddwy yn cynrychioli Creigiau yn y Senedd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Gwych ferched!

Gwasanaeth Ffarwel Blwyddyn 6
Ddydd Mercher, cyn diwedd tymor, gwahoddwyd rhieni a gofalwyr disgyblion Dosbarth 6 i'r ysgol i fwynhau Gwasanaeth Ffarwel y dosbarth. Mwynheuodd y disgyblion berfformio i'w rhieni a mwynheuodd y rhieni hel atgofion am gyfnod eu plant yn yr ysgol. Roedd hi'n fore emosiynol i lawer!

Parti Ffarwel Dosbarth 6

Blwyddyn 5 yn mwynhau eu Gwibdaith Haf

Parti Ffarwel Class 6

Ysgol Evan James

Y Faner Werdd
Cawsom newyddion gwych ym mis Gorffennaf. Cyhoeddwyd bod yr ysgol wedi ennill Y Faner Werdd am ein gwaith arbennig wrth i ni ofalu am yr amgylchedd. Daeth y beirniad i'r ysgol a siaradodd gyda'r Cyngor Eco am eu gwaith diflino dros y flwyddyn. Llongyfarchiadau!

Pigo Dy Drwyn
Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd perfformiad Blwyddyn 6 ar y rhaglen Pigo Dy Dwyn. Aethant i Stiwdio'r Enfys yng Nghaerdydd i gystadlu ar y rhaglen. Eu gwrthwynebwyr oedd Ysgol Gynradd Cwmbrân ac fe fydd angen i chi aros i'r rhaglen gael ei darlledu er mwyn gweld pwy oedd yn fuddugol.

Gwasanaethau Dosbarth
Hoffem longyfarch pob disgybl am gymryd rhan yn eu gwasanaethau dosbarth. Roedd yn hyfryd croesawu teuluoedd y plant i neuadd yr ysgol eto i weld y gwasanaethau ac edrych ar waith y disgyblion. Llwyddiant ysgubol.

Mabolgampau
Roedd Parc Ynysangharad dan ei sang ar ddiwrnod ein mabolgampau. Disgyblion Cyfnod Allweddol Dau oedd yn rhedeg, taflu a cheisio cadw'r wy ar y llwy yn y bore a'r Cyfnod Sylfaen yn y prynhawn. Diolch i Mrs Lockett am drefnu'r diwrnod ac i'r teuluoedd am gefnogi'n frwd. Y llys buddugol eleni oedd Elai. Da iawn chi.

Parti Ponty
Er gwaetha'r glaw, daeth criw mawr o blant i Barc Ynysangharad i ganu ym Mharti Ponty. Llwyddodd y côr i ddiddanu'r dorf gyda'u canu hwyliog. Diolch yn fawr i Miss Thomas am gyfeilio i ni. Ar ôl i'r côr ganu, cafodd Gwennan Jones o flwyddyn 5 gyfweliad ar Radio Cymru ac fe siaradodd yn arbennig o dda.

Cyflwyno'r Cwricwlwm i Rieni
Diolch i'r holl rieni ddaeth i'r neuadd i wrando ar gyflwyniad am y Cwricwlwm i Gymru. Roedd yn braf gallu dangos gwaith yr ysgol a'r paratoadau yr ydym wedi bod yn ymgymryd â nhw dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn hyfryd cael cyfle i sgwrsio gyda'r rheini ar ôl y cyflwyniad.

Hwyl Fawr Blwyddyn 6!
Daeth yr amser i ni ffarwelio â Blwyddyn 6 ar ddiwedd y tymor. Cawsom bythefnos bythgofiadwy o weithgareddau cyn iddynt adael. Roedd y trip i Legoland yn fendigedig ar ddiwrnod chwilboeth. Roedd y plant wrth eu boddau yn y ffair a'r siop Lego ac fe fwynheuodd pawb yn yr heulwen. Yn ogystal â'r trip, roedd y Prom yn noson i'w chofio. Roedd y disgyblion oll yn edrych yn smart iawn a hoffem ddiolch i'r rhieni am drefnu'r noson. A phwy all anghofio'r sioe? Perfformiodd y plant o flaen yr ysgol a'r rhieni ac yn sicr, mae yna actorion a chantorion o fri yn ein hysgol. Hoffem ddymuno'n dda i bob un ohonynt yn y dyfodol.

Cwpan Jessica
Rhoddir Cwpan Jessica yn flynyddol i ddisgybl sy'n arddel holl werthoedd yr ysgol, sy'n rhoi o'i gorau ac wrth gwrs sy'n esiampl i eraill. Eleni, Lily-Grace Watkins enillodd y cwpan. Llongyfarchiadau mawr i ti Lily-Grace a phob hwyl i ti yn Ysgol Garth Olwg.

Lily-Grace Watkins yn derbyn Cwpan Jessica

Colofn Blasus ac Iachus

Eluned Davies-Scott

Perlysieuyn, sbeis a llysieuyn - y ffenigl amlbwrpas

Faint ohonoch sy'n gyfarwydd ag amlbwrpasedd ffenigl? Rwy'n ei weld yn ychwanegiad hynod ddefnyddiol i'r bwydydd rwy'n eu paratoi. Amser yma o'r flwyddyn dwi'n hoffi defnyddio bylbiau ffenigl amrwd i roi amrywiaeth i saladau a'r perlysieuyn pluog sy'n tyfu yn fy ngardd i ychwanegu at flasau pysgod a seigiau eraill.

Mae llawer o blanhigion yn ymddangos mewn straeon mytholegol ac mae gan ffenigl le arbennig yn stori Prometheus. Yn ôl y chwedl, cuddiodd y Titan y tân yr oedd wedi'i ddwyn oddi ar y duwiau yng nghesail wag y ffenigl i'w ddwyn i'r hil ddynol. Am ei gamwedd gwnaeth Zeus hoelio Prometheus i fynydd yn y Cawcasws ac anfon eryr i fwyta ei iau anfarwol a oedd yn ailgyflenwi ei hun yn gyson.

Credai Pliny, awdur Rhufeinig *The Naturalis Historie*, fod seirff yn bwyta ac yn rhwbio yn erbyn ffenigl i wella eu golwg ar ôl colli eu crwyn. Credai hefyd y gallai'r perlysieuyn aromatig hwn gael ei ddefnyddio i drin 22 o anhwylderau gwahanol.

Mae llyfrau cyfrifon Brenin Edward I yn rhestru pryniant o 8½ pwys o ffenigl yn y 1300au - cyflenwad mis. Pam cymaint? Defnyddiwyd hadau ffenigl fel condiment ac atalydd archwaeth.

Mae'n debyg fod pobl yn arfer bwyta ffenigl yn ddi-baid i'w helpu i fynd trwy'r dydd heb fwyd ar ddiwrnodau ymprydio'r Eglwys; traddodiad a gymerwyd i'r Unol Daleithiau gan y Piwritaniaid yn ôl un awdur.

Mae dŵr gripe yn feddyginiaeth lysieuol boblogaidd ar gyfer colig mewn babanod, sydd wedi bod o gwmpas ers yr 1800au, yn cynnwys echdyniad hadau ffenigl a hefyd gwreiddyn sinsir a sodiwm bicarbonad.

Mae ffenigl yn aelod o'r un teulu a phersli, seleri a moron. Mae tri math: ffenigl chwerw a melys, y ddau yn cael eu defnyddio fel perlysiau; a ffenigl Florence a ddefnyddiwn fel llysieuyn. Mae'n gynhenid i lannau Môr y Canoldir, lle mae ffenigl gwyllt yn dal i dyfu; mae'n debyg bod ffenigl wedi'i drin gyntaf naill ai yng Ngwlad Groeg neu'r Eidal ac fe'i defnyddiwyd at ddibenion meddyginiaethol a choginio.

Lledaenwyd ffenigl melys gan fasnachwyr Arabaidd ar hyd a lled y Dwyrain Canol a gwnaeth ei ffordd i India a Tsieina. Mae ffenigl yn berlysieuyn â dail aromatig, pluog a phennau tal o flodau melyn yn gynnar yn yr haf. Mae ganddo arogl a blas nodweddiadol tebyg i anis. Mae'r blodau'n ddeniadol i amrywiaeth o bryfed buddiol, yn ogystal ag i drefnwyr blodau.

Hadau aromatig o ffenigl melys neu chwerw sy'n cael eu defnyddio fel sbeis. Y ffenigl melys sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r amrywiaeth mwyaf cyffredin o hadau sydd â blas anis ysgafn. Fel yr awgryma'r enw mae hadau ffenigl chwerw gwyllt, a ddefnyddir mewn bwydydd o Ganol a Dwyrain Ewrop, yn blasu ychydig yn chwerw ac yn debyg i hadau seleri.

Mae'r hadau yn cael ei malu a'u defnyddio gyda sbeisys eraill i'w ychwanegu at gawl, sawsiau, seigiau pysgod, cyris cig oen neu datws, picls, bara, cacennau, crempogau, pwdinau, melysion a diodydd ym mwydydd Ewropeaidd, Y Dwyrain Canol, Indiaid a Tsieineaidd. Yn India, cânt eu cnoi fel ffresnydd anadl ac fel cymorth treulio. Fel y rhan fwyaf o sbeisys, maen nhw'n rhoi mwy o flas wedi iddynt gael eu tostio'n ysgafn cyn eu defnyddio yn gyfan neu wedi'u malu mewn seigiau.

Mae gan y math arall, y ffenigl Fflorens, dymor tyfu hir o Fehefin hyd Hydref. Tua'r adeg hon o'r flwyddyn y mae'r coesynnau ar eu mwyaf creisionllyd, y bylbiau gwyn yn dew a llawn sudd, a'r dail ar eu mwyaf eiddil a phluog.

Mae ansawdd creisionllyd bwlb ffenigl yn golygu ei fod yn addas ar gyfer cael ei weini'n amrwd mewn saladau a choleslo. Defnyddio mandolin yw'r ffordd orau i'w dorri'n denau iawn. Pan fydd y bylbiau yn cael eu ffrio neu rostio, mae'r blas yn dechrau troi'n felys tebyg i garamel a'r cnawd yn troi'n euraidd.

Gellir berwi neu stemio bylbiau ffenigl hefyd. Mae hyn yn atal y chwerwder, heb gyflwyno unrhyw nodau caramel melys. Mae blas anis yn golygu bod ffenigl yn

llysieuyn gwych ar gyfer gweini gyda bwydydd cyfoethog neu frasterog, fel porc neu hwyaden. Mae'r blasau ffres miniog, bron yn lemonaidd yn ei wneud yn berffaith ar gyfer paru â physgod a physgod cregyn.

Meddyliwch am flasau cynnes, Môr y Canoldir wrth goginio gyda ffenigl - tomatos, winwns coch, pupurau a hyd yn oed ffrwythau sitrws. Mae'r cogydd Adam Simmonds yn defnyddio ffenigl ar gyfer ei flas lemon mewn granita.

Tri o fy hoff ryseitiau haf yn defnyddio ffenigl Florence yw Draenogiaid y Môr, Ffenigl a Ffacbys wedi'u rhostio ar hambwrdd; Salad Nectarîn, Ffenigl a Prosciutto (y ddau o https://www.waitrose.com) a rysáit Yotam Ottolenghi - Gratin Ffenigl ac Afal gyda Chrwst Parmesan (https://

Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg
www.cronfaglyndwr.cymru
cronfa glyndŵr
www.cronfaglyndwr.cymru

Cinio ac Anerchiad gan yr Athro Mererid Hopwood

Nos Sadwrn 15fed Hydref 2022

Clwb Golff Radur

Heol Drysgol , Radur, CF15 8BS

Ymgynnull 6.30 y.h. Cinio 7.00 y.h. yn brydlon

Tocyn: £35.00

Mae nifer cyfyngedig o lefydd ar gael felly cyntaf i'r felin!

Dyddiad cau archebu tocyn a bwyd yw Medi 23ain 2022

Gellir cael manylion y fwydlen a ffurflen archebu tocyn drwy gysylltu â Heledd Jones (heledd.jones.347@hotmail.com) rhif ffôn 01267253372

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Ffarwelio

Hoffai'r ysgol estyn llongyfarchiadau gwresog iawn i Mrs Mair Hulse yn dilyn ei hymddeoliad ddiwedd y tymor hwn. Mae Mrs Hulse wedi bod yn dysgu yn Llantrisant ers 2001 ac wedi bod yn athrawes hynod o weithgar, nid yn unig wrth ei gwaith bob dydd yn dysgu ei dosbarth ac am fod yn gyfrifol am asesu drwy'r ysgol, ond hefyd wrth gyfrannu at fywyd allgyrsiol yr ysgol, gan gynnwys y clwb pêl-rwyd am nifer fawr o flynyddoedd. Bydd y staff a'r disgyblion yn gweld eisiau ei hiwmor a'i charedigrwydd ond wrth gwrs dymunwn yn dda iddi wrth iddi ddechrau ar bennod newydd. Gobeithiwn yn fawr dderbyn ambell i gerdyn post wrth iddi fwynhau teithio yn y *campervan* gyda'i gŵr, Bill, a'r ci! Diolch o galon i ti Mair am bopeth.

Rydym hefyd yn dymuno'n dda iawn i Miss Shannice Powell sydd yn ein gadael i edrych ar ôl ei mab bach ac i Mr Dylan Hall sydd yn symud i Ysgol Gymraeg Ynyswen. Pob lwc i'r ddau ohonoch.

Rydym hefyd, wrth gwrs, yn ffarwelio â holl ddisgyblion Blwyddyn 6. Diolch yn fawr i chi blant a rhieni am eich holl waith caled a chefnogaeth yn ystod eich

cyfnod yma gyda ni. Dymunwn bob hwyl i chi gyd wrth i chi barhau â'ch taith addysgol i'r ysgol gyfun.

Taith Blwyddyn 6

Cafodd disgyblion blwyddyn 6 lawer o hwyl yn ystod eu hymweliad â chanolfan Call of the Wild ddiwedd tymor. Cafon nhw gyfle i adeiladu rafft, cerdded drwy'r afon, canŵio, llywio kayak, dringo, cyfeiriannu, mynydda a chwarae gemau adeiladu tîm. Llawer o brofiadau gwych, a diolch yn fawr i'r staff aeth gyda'r plant dros y tri diwrnod sef Mr O'Neil, Mrs Hulse, Miss Jones, Mr Jones a Mrs Terrell.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau enfawr i Miss Catrin Price sydd yn priodi fis Awst. Dymunwn yn dda iawn iddi hi a Josh wrth iddynt ddechrau ar eu bywyd priodasol. Pob hwyl i'ch dau.

Siarter Iaith

Llongyfarchiadau i Griw Cymraeg yr ysgol am weithio'n galed iawn er mwyn ennill gwobr arian y Siarter Iaith. Ymlaen nawr at y wobr aur flwyddyn nesaf!

Blwyddyn 6

Menter Caerdydd

Wedi haf prysur o weithgareddau i blant a phobl ifanc, trip i'r Eisteddfod a theithiau cerdded, mae criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn edrych ymlaen at dymor yr hydref.

Dewch gyda ni i'r Fenni, ddydd Sadwrn, 17 Medi ar daith fws i'r Ŵyl Fwyd lle bydd digon o gyfle i flasu cynnyrch lleol. Neu beth am ymuno â rhai o'n sesiynau poblogaidd? Bydd Sgwrs y Mis yn dychwelyd nos Iau, 22/09 yng nghwmni Dr Eirini Sanoudaki o Brifysgol Bangor a'r Bore Coffi Misol i Ddysgwyr yn cael ei gynnal ar Zoom fore Gwener ola'r mis. Bydd Ffitrwydd Gyda Ffrindiau 75+ yn parhau bob yn ail fore Gwener yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru gyda chroeso mawr i aelodau newydd.

Bydd ein dosbarthiadau Sbaeneg (Canolradd) yn dychwelyd ar ddiwedd y mis a'r cyntaf o'n cyrsiau hanes byrion yn rhedeg ar nosweithiau Llun o 3 Hydref am dair wythnos, gyda Dr Eurwyn Wiliam wrth y llyw. Bwriad y cwrs - Cartrefi'r Werin: Adeiladau Traddodiadol Cymru - yw edrych ar gartrefi pobl gyffredin drwy'r oesoedd.

Byddwn ni hefyd yn ail-ddechrau ein cyngherddau cymunedol 'Mewn Tiwn' yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina, unwaith y mis am 11.30yb ar fore Llun, 26 Medi, 31 Hydref a 28 Tachwedd. Draw ym Mro Morgannwg, mae pawb yn edrych ymlaen at gyd-ganu rhai o'r hen ffefrynnau yng nghwmni Dafydd Iwan a'r Gerddorfa Ukulele, nos Wener, 9 Medi.

Bydd digon o hwyl a sbri i blant hefyd gan gynnwys Sioe Syr Ifan ab Owen Edwards yng nghwmni 'Mewn Cymeriad' yn festri Capel Salem fore Sadwrn, 10 Medi. Yn ystod y mis byddwn hefyd yn dechrau sesiynau ffitrwydd i blant 7-11 oed yng Nghanolfan Gôl ar foreau Sadwrn. Dyma gyfle gwych i aelodau ifanc y teulu gadw'n heini a chael ychydig o sbort yr un pryd.

Gyda Chymru trwyddo i rowndiau terfynol Cwpan y Byd, bydd cyfle i blant 7-13 oed ddysgu sgiliau sylwebu yng nghwmni Dylan Ebenezer ac arbenigwyr o Brifysgol De Cymru. A chofiwch am ein Gig Ieuenctid i bobl ifanc 16-25 oed ar 28 Medi pan fydd Tafwyl yn cyflwyno bandiau amrywiol ar lwyfan Clwb Ifor Bach.

I'r rhai sydd â phlant ifanc iawn, dewch i fwynhau ein disgo diwedd haf i'r rhai bach! Bydd ein sesiynau Amser Stori hefyd yn dychwelyd i leoliadau amrywiol o gwmpas y ddinas. Ewch i'r wefan am fwy o fanylion.

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/
E-bost: post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888

Ysgol Garth Olwg

Eisteddfod yr Ysgol

Pleser oedd cynnal Eisteddfod gyntaf Ysgol Garth Olwg ers i ni droi'n ysgol 3-19. Roedd dwy flynedd heb Eisteddfod yn amser hir iawn i ddisgwyl ond roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol a werth yr aros hir. Roedd y cystadlu brwd wedi dechrau yn bell cyn i unrhyw un droedio ar lwyfan gyda'r cystadlaethau gwaith cartref. Roedd safon y gwaith yn dda iawn gyda thasgau ar gyfer pob pwnc a phob adran. Roedd hefyd ymarferion gofalus yn ddyddiol am dri chwarter awr er mwyn sicrhau safon uchel i'r perfformiadau. Yna, daeth y diwrnod mawr o'r diwedd. Hyfryd oedd clywed brwdfrydedd y disgyblion o'r Ysgolion Isaf, Canol a Hŷn wrth iddyn nhw glapio a chwibanu ar gyfer eu llysoedd: Aran, Clydach a Dowlais.

Yn y bore cafodd yr Ysgolion Isaf a Chanol y cyfle i serennu gyda chystadlaethau megis parti llefaru, parti unsain a dawnsio. Llwyddodd Aran i ennill nifer o bwyntiau a dechrau'r dydd ar y brig. Ar ôl egwyl, cyfle i'r athrawon berfformio gydag eitem staff. Roedd dawns gan staff Aran a cherddorfa samba gan Dowlais, ond Clydach cipiodd y fedal gyda pherfformiad pypedau llawn hwyl a sbri. Ar ôl hynny, cawsom wledd o gerddoriaeth gydag unawdau lleisiol ac offerynnol. Braf oedd cael perfformiadau safonol tu hwnt ac arddangos y talentau cerddorol sy'n bodoli yn yr ysgol. Ond roedd cyfle hefyd i ddangos talentau eraill hefyd megis sgiliau pêl-droed, triciau gyda chi a hyd yn oed dawnsio stryd. Ar ôl hoe am ginio haeddiannol, cawsom seremoni gadeirio ffurfiol. Roedd Mr. Edwards yn wên o glust i glust fel ein harchdderwydd a

diolch i Mr. Steen Spinola am greu cleddyf newydd yn arbennig ar gyfer yr Ysgol. Twm Pike, Olivia Santini a Benjamin Spicer a ddaeth i'r brig gyda'u cerddi ar y themâu haf, twyll ac enfys. Diolch i Mr. Cynan Llwyd am fod yn feirniad teg i ni unwaith eto. Yn dilyn hynny, cafodd ddisgyblion 7, 8 a 12 y cyfle i berfformio gyda chystadlaethau megis meimio, cân ieithoedd rhyngwladol, ymgom a dawnsio gwerin. Clydach oedd yn fuddugol yn nifer o'r rhain ac felly roedd y pwyntiau'n agos. Daeth yr Eisteddfod lawr i gystadleuaeth y côr. Hyfryd oedd gwrando ar y llysoedd yn canu Yma o Hyd gan gynnwys disgyblion a staff o bob oedran gyda'r fath angerdd. Aran gipiodd y wobr côr ac yna felly'r Eisteddfod gyfan (o drwch blewyn!). Roedd yn ddiwrnod wirioneddol fythgofiadwy a hyfryd oedd gweld yr ysgol 3-19 ar ei gorau. Diolch yn fawr i Ms Menna Thomas a Ms Menna Lewis am feirniadu'r Eisteddfod eleni mewn modd deg iawn! Mae pawb wir yn edrych ymlaen at Eisteddfod Ysgol Garth Olwg yn

2023.**Mabolgampau'r ysgol**

Cafwyd gwledd o gampau athletau a maes draw yn Stadiwm Lecwydd ar ddiwrnod braf ar gyfer Blynyddoedd 7-10. Dyma oedd y tro cyntaf i'n disgyblion allu cynrychioli eu llysoedd newydd Aran, Clydach a Dowlais ers sefydlu'r Ysgol 3-19. Er gwaethaf y gwres, gwelwyd rhedeg, neidio, a thaflu arbennig yn stadiwm y ddinas.

Diolch arbennig i'r Adran Addysg Gorffol am drefnu diwrnod bendigedig ar

gyfer athletwyr y dyfodol.

Llys Clydach a ddaeth i'r brig y tro hwn, ond llwyddodd y mabolgampau i sbarduno traddodiad o gyffro, cystadlu a chefnogi brwd rhwng ein llysoedd newydd.

Cynhaliwyd mabolgampau Bl 5 a 6 eleni ar gae uchaf yr ysgol - y mabolgampau cyntaf ers tair blynedd! Bu cystadlu brwd ym mhob camp ond Llys Dowlais ddaeth i'r brig.

Roedd Mabolgampau'r Ysgol Isaf hefyd yn yr ysgol a chafodd y disgyblion lawer o hwyl mewn amryw o gystadlaethau. Roedd pawb wedi cael hufen iâ haeddiannol ar ddiwedd y dydd yn ogystal!

Dyma Bencampwyr yr Ysgol Ganol ac Uchaf: Bl.5: Charlie Norcup ac Ella Edwards. Bl.6: Jacob Edwards a Samar al Hasan. Bl. 7: Finley Davies, Grace Forkin ac Ava John. Bl. 8: Freddie Gabe Williams, Dylan Szalkowski a Megan Phillips. Bl. 9: Seb Williams a Sophia Goulding. Bl.10: Eurion John, Aled Evans a Kara Bennett

Gwobr Efydd y Pwyllgor Eco

Mae Pwyllgor Eco Garth Olwg wedi bod yn brysur iawn eleni. Rydyn ni wedi llwyddo i sefydlu grŵp o ddisgyblion sydd yn awyddus i rannu syniadau a cheisio gwella ein hamgylchedd. Yn ystod y flwyddyn rydyn ni wedi blaenoriaethu tri pheth rydyn ni wedi gweld fel problem. Y tair blaenoriaeth yw sbwriel, egni a thir yr ysgol.

Parhad tudalen 15 >

Ysgol Garth Olwg (Parhad)

Yn gyntaf aethon ni ati i gynnal diwrnod gwisgo glas a gwyrdd i godi ymwybyddiaeth o'r Pwyllgor Eco ac i annog y disgyblion i ddysgu mwy amdano. Gofynnon i athrawon yr ysgol i ddiffodd y trydan am un wers ac i geisio cynnal gwers heb drydan. Roedd yn llwyddiannus iawn wrth weld amryw o wersi yn digwydd heb unrhyw drydan. Roedd Drama yn defnyddio goleuadau batri, Dylunio a Thechnoleg wedi cynnal gwers ymarferol tu fas ac aeth yr ysgol ganol tu fas i gasglu sbwriel.

Mae casglu sbwriel wedi bod yn rhan bwysig iawn i'r pwyllgor gan ein bod yn gweld cymaint o sbwriel ac rydym yn medru trafod beth yw'r problemau mwyaf a sut gallwn ni wneud gwahaniaeth gyda hyn.

O ran tir yr ysgol rydyn ni wedi gweithio yn agos gyda Dosbarth y Bont er mwyn ailgydio yn yr ardd sydd yn yr ysgol. Gweithion ni yn galed iawn i dacluso'r ardal i'w wneud yn addas i dyfu planhigion. Hoffwn ni dyfu planhigion i allu defnyddio yn yr ysgol i goginio a rhannu gyda staff a'r gymuned leol. Yn yr ardal yma hefyd hoffwn ni dyfu blodau er mwyn annog pryfed gan fod pryfed yn bwysig iawn i'r amgylchedd a gallwn ni helpu gydag hynny. Ar ôl blwyddyn lwyddiannus iawn rydyn ni wedi llwyddo ennill y wobr efydd am eco ysgolion. Mae hyn yn llwyddiant i'r disgyblion sydd wedi rhoi o'u hamser i'r pwyllgor gan gyfrannu a mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ac yn cyfathrebu gyda staff yr ysgol er mwyn sicrhau bod llais ein disgyblion yn cael ei glywed a dyma ran bwysicaf y pwyllgor. Diolch i bawb yn yr ysgol - disgyblion, staff a'r gymuned leol sydd wedi helpu'r flwyddyn yma gyda llwyddiant y Pwyllgor Eco.

Taith i Barc Thorpe

Ar Ddydd Mercher yr 28ain o Fehefin,

aethom ar daith Ysgol Ganol ac Ysgol Uchaf i barc thema *Thorpe Park*. Roedden yn lwcus iawn gyda'r tywydd gan ei fod yn gynnes ond heb fod yn rhy boeth. Cawsom ddiwrnod i'r brenin yno gyda rhywbeth at ddant bawb. I'r *thrill seekers* yn ein plith, roedd nifer

o *roller coasters* enfawr gan gynnwys Stealth, sy'n eich saethu chi 80 m.y.a. i uchderau o 200 troedfedd, a Colossus, sy'n troi ben i waered 10 gwaith! Ond roedd hefyd reidiau llai anturus fel y *Tea Cups* a'r *Flying Fish*. Gan ei fod yn ddiwrnod cynnes roedd rhai ohonom ni wedi penderfynu mynd ar y reid dŵr fel y Rumba Rapids neu Tidal Wave - roedd rhai yn socian! Cyn hir roedd e'n amser gadael a chawsom KFC neu Burger King yn y gwasanaethau er mwyn llenwi ein boliau cyn dychwelyd i Nantgarw. Diolch i'r staff am drefnu ac am edrych ar ein holau am ddiwrnod hir o hwyl.

Sesiwn Recordio

Cafodd Flwyddyn 6 y cyfle i brofi sut mae recordio cân. Daeth cwmni recordio i'r ysgol er mwyn recordio cân ymadael Blwyddyn 6. Cawson ni hwyl yn perfformio.

Taith i Gwm Carn

Yn anffodus ni chafodd Blwyddyn 6 gyfle i fynd i aros yng ngwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn na Llangrannog eleni - ond fe gawson nhw ddiwrnod i'r brenin ym Mharc Gwledig

Cwm Carn, ger Caerffili. Bu pawb yn profi sgiliau antur newydd megis canŵio, cerdded drwy afonydd a padl-fyrddio. Er bod pawb yn wlyb ac yn flinedig ar ddiwedd y dydd - roedd y wên ar wyneb pawb yn dweud y cyfan.

Make £5 grow

Unwaith yn rhagor, bu Blwyddyn 5 a 6 yn gweithio ar eu sgiliau entrepreneuriaeth gan ddilyn canllawiau 'Make £5 grow'. Daeth llu o ddisgyblion o flynyddoedd 4, 7 ac 8 i brynu ein nwyddau. Diolch am ein cefnogi!.

Taith Bl 5 a 6 i Ynys y Barri

Taith i'r Barri unwaith eto oedd dewis y dysgwyr fel taith diwedd y flwyddyn. Tra yno buom yn nofio yn y môr, chwarae ar y peiriannau ac yn joio yn y ffair. Atgofion melys tu hwnt.

Piga dy Drwyn

Ddechrau mis Gorffennaf, aeth disgyblion Bl 6 i Gaerdydd i recordio rhaglen deledu 'Piga dy drwyn'. Bu'r plant yn cystadlu yn erbyn disgyblion Ysgol Glan Morfa….ond Ysgol Garth Olwg ddaeth yn fuddugol!

Eisteddfod Llangollen

Aeth ensemble lleisiol blwyddyn 9 i gystadlu yn y gystadleuaeth grŵp "a Cappella" Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Ar ôl dwy flynedd o gyfuniad o ymarferion dros Teams ac ymarferion yr ysgol, llwyddon nhw i berfformio "The Lion Sleeps Tonight", "Nant y Mynydd" ac "Yfory" ar y llwyfan i safon uchel yn yr Eisteddfod, gan ennill yr ail wobr. Da iawn chi ferched!

Parhad tudalen 16 >

Ysgol Garth Olwg (Parhad)

Ar y 7fed o Orffennaf aethon ni fel côr ar drip i Langollen. Cyrhaeddon ni am 7 o'r gloch. Roedd llawer o bobl wedi chwydu ac yn teimlo'n sâl ond yn teimlo'n well unwaith i ni gyrraedd. Ar ôl i ni gyrraedd Llangollen, roedd hi'n amser cinio. Cawsom ni ginio ar y gwair fel picnic ysgol. Roedd e mor hwyl! Roedd llawer o bobl wedi dod â losin.

Yna, cwrddon ni tu ôl i'r llwyfan am 12.30. Roedd llwyfan Llangollen yn anhygoel - roedd hi'n enfawr a lliwgar. Daethon ni'n 8fed mas o 9 côr. Ar ôl canu, prynom ni dedi, 'fidget' a Beanie Boos'. Roedd hi'n amser i fynd nôl ar y bws, felly roedden ni ar ein ffordd nôl am hanner awr wedi tri. Roedd hi'n daith fythgofiadwy. Diolch Mrs Howard am drefnu.

Gan Mari Morris a Ffion Morris, Bl. 3.

Parti Ponty

Cafwyd diwrnod hyfryd ym Mharti Ponty ym Mharc Ynys Angharad ar ddechrau Gorffennaf. Roedd disgyblion y côr iau wedi perfformio'n wych ar y bandstand a diddanwyd y gynulleidfa gyda chaneuon Y Dail. Bu disgyblion yr ysgol hefyd yn brysur yn gweithio gyda Technocamps i ddysgu'r cyhoedd am wyddoniaeth. Roedd yn hyfryd gweld y parc dan ei sang a chlywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol wrth fwynhau. Edrych ymlaen at flwyddyn nesaf.

Taith Pêl-rwyd i Loughborough

Wel am daith fythgofiadwy! Y daith ysgol orau dwi erioed wedi bod arni! Ar ddydd Llun y 4ydd o Orffennaf dechreuodd 40 o ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 tîm pêl rwyd Garth Olwg y daith i fyny i Loughborough. Dechreuodd y tîm gyda llun o flaen y bws yn edrych yn neis yn ei hwdis smart!

Ar ôl y daith hir i fyny cafodd pawb y cyfle i newid i mewn i'w ffrogiau pêl rwyd smart ac yna aeth tîm 1 a 2 syth i mewn i gêm! Ar ôl y gemau wedyn aethon ni nôl ar y bws ac i ganolfan siopa am bach o ginio a chyfle i wario arian. Ac yna nôl ar y bws i dîm 3 a 4 i gael cyfle i chware. Yn y gemau yn ystod y dydd roedd safon chware pawb yn wych wrth ystyried roedden ni newydd fod yn eistedd ar fws am 3 awr! Ac yna dechreuon ni ein taith i'r gwesty cyfforddus a oedd yn agos iawn i Brifysgol Loughborough.

Ar yr ail ddiwrnod sef Dydd Mawrth y 5ed o Orffennaf cawsom ni gyfle gwych i fynychu Prifysgol Loughborough, dyma lle mae'r Loughbrough Lightning yn cael ei hyfforddi. Roedd hi'n brofiad ceisio dod o hyn i'r man yr oedden yn cael ei hyfforddi ond cyrhaeddon ni yna yn y diwedd! Cafodd bawb brofiad gwych yn cael ei hyfforddi gan un o'r hyfforddwyr ac un o ferched sydd ar y tîm. Fe ddysgon ni lawer o bethau a gweithion ni ar ein hamddiffyn a'n ymosod. Ar ôl hynny wedyn aethon ni nôl ar y bws a dechrau ein taith draw i'r Bullring ym Mirmingham, cyfle gwych arall i wario ein harian! Oeddech chi'n gwybod bod y Bullring yn cynnwys y Primark mwyaf yn y byd? Ar ôl cwpwl o oriau prysur wedyn yn siopa aethon ni draw i chware gemau yn erbyn academi Gogledd Birmingham, cyfle gwych arall i chware yn erbyn tîm da arall! Aethon ni nôl wedyn ar y bws i'r gwesty i gael bwyd yn y Harvester oedd ond i lawr yr heol.

Ac yna cyrhaeddodd diwrnod olaf y daith. Nid oedd neb eisiau gadael! I orffen y daith fendigedig aethon ni i Alton Towers! Mi roedd llawer o sgrechian a'r mwyafrif o bobl wedi colli eu lleisiau ar ôl bod ar y reids mawr fel 'The Smiler', 'The Wickerman', 'Nemesis' a llawer mwy o reids hwyl! Ac yn nôl ar y bws nôl adref a doedd neb eisiau gadael! Ar y ffrodd adref cawsom ni seremoni wobrwyo ar y bws â nifer o bobl yn derbyn gwobrau am bethau doniol! 3 awr yn ddiweddarach cyrrhaeddon ni nôl adre i weld ein teuluoedd.

Wythnos wedyn cafodd y tîm pêl-rwyd blwyddyn 8 gyfle gwych i chwarae mwy o gemau yn Nhwrnamaint Cymunedol Graham Lewis yn Nhonyrefail yn erbyn llawer o ysgolion lleol. Roedden ni bron a mynd trwyddo i'r ffeinal! Mae'r bythefnos ddiwethaf wedi bod yn gyfle gwych i ni gyd ac mae'r merched i gyd mor ddiolchgar i Miss Jones, Miss Jones a Miss Rees. Gan Elliw Porter, Blwyddyn 8.

Seremoni Gadael Blwyddyn 6

Cynhaliwyd seremoni hyfryd ar brynhawn poeth yn y Theatr i ddymuno'n dda i flwyddyn 6 wrth iddyn nhw symud ymlaen at flwyddyn 7. Roedd digon o chwerthin a dagrau wrth gofio'n ôl i nifer o uchafbwyntiau'r flwyddyn a chyfle i ddiolch i'r athrawon am eu gwaith caled.

Llongyfarchiadau i dîm athletau bechgyn Blwyddyn 10 a lwyddodd i ddod yn 3ydd dros Gymru gyfan yng nghystadleuaeth y plât Athletau Ysgolion Cymru yn Aberdâr sydd yn llwyddiant arbennig iddynt.

Llwyddodd tîm rygbi plant Blwyddyn 5 a 6 ennill y plât yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd. Yn hwyrach yn y mis, daeth y merched yn ail yng nghystadleuaeth Cwpan rygbi-tag merched yr Urdd, ac yn ail yng nghystadleuaeth y plât hefyd.

Colli yn y gêm derfynol fu hanes merched Blwyddyn 5 a 6 yng nghystadleuaeth pel-droed yr Urdd….a hynny wrth orfod cymryd ciciau o'r smotyn. Ymdrech anhygoel o wych.

Ddiwedd mis Mehefin, aeth y criw talentog yma o Flwyddyn 5 a 6 i'r House of Sport yng Nghaerdydd i gymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd. Da iawn chi ferched!

Parhad tudalen 17 >

Newyddion Canolfan Gydol Oes Garth Olwg

Clwb Drama
Mae'r plant Clwb Drama wedi bod yn brysur tymor yma yn creu a datblygu cymeriadau. Maen nhw wedi bod yn cydweithio i feddwl am syniadau ar gyfer eu sioe diwedd tymor. Da iawn chi!!

Prosiect Celfyddydol gydag Ysgol Llanilltud Faerdref
Mae plant Llanilltud Faerdref wedi bod yn brysur yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau celf a chrefft er mwyn dathlu diwedd cyfnod. Maen nhw'n edrych ymlaen i symud mewn i'r ysgol newydd pan fydd yr adeilad yn barod.

Ysgol Garth Olwg (parhad)

Mae'r prosiect wedi bod yn canolbwyntio ar werthoedd yr ysgol a dathlu atgofion y plant dros y cyfnod maen nhw wedi bod yna. Bydd y gwaith yn cael eu harddangos yn y Ganolfan ym mis Gorffennaf.

Clwb Traed Bach
Mae plant y clwb newydd 'Traed Bach', sef clwb i blant dan 2 a rhieni, wedi bod yn brysur bob prynhawn Llun yn mwynhau chwarae synhwyraidd gyda'u ffrindiau newydd!

Rydym yn edrych ymlaen i ehangu'r clwb ym mis Medi drwy greu Clwb Traed Bach (hyd at 18 mis oed) a Chlwb Traed Mawr (18 i 36 mis oed) bob wythnos.

Diolch i bawb am ddod i Ffair Haf Gorffennaf, roedd hi mor braf medru dathlu a mwynhau fel cymuned.

O'r Wasg

Hunangofiant y cerddor a'r arweinydd carismatig sydd wedi gwneud cyfraniad enfawr i'r byd cerddorol yng Nghymru. Cawn ddilyn hanes ei yrfa ddisglair, y bobol a'r profiadau sydd wedi dylanwadu arno, pwysigrwydd yr Eisteddfod Genedlaethol iddo a'i gyfarfyddiad difyr â Robert de Niro, Kiri Te Kanawa a Marisa Robles.
Gwasg y Bwthyn. *£9.95*

Clwb y Bont - Adeiladu ar gyfer y dyfodol

Mae gwaith adeiladu cynhwysfawr wedi cael ei wneud yng Nghlwb y Bont dros y chwe mis diwethaf, gan gynnwys unedau toiledau newydd, grisiau a seler newydd a datblygu ystafell gymunedol a chegin i fyny'r grisiau.

Bydd y gwaith yn parhau gydol mis Awst gyda gwelliannau strwythurol i'r ystafell gefn. Mae'r Clwb yn ymddiheuro am anghyfleustra bod angen cau'n hir, ond edrych ymlaen yn eiddgar at ailagor ar ôl yr haf a chroesawu pawb yn ôl i'r lleoliad ar ei newydd wedd.

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith adeiladu a dyddiad ailagor yn cael ei roi ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol - cadwch mewn cysylltiad! Trydar - @ClwbYBont.

Ysgol Llanhari

Bu'n hanner tymor hynod o brysur yn Llanhari ers Sulgwyn gyda chyfleon niferus i'r disgyblion fynd ar deithiau a mwynhau amryw o weithgareddau. Llongyfarchwn sawl unigolyn ar lwyddiannau nodedig a braf gweld bwrlwm penllanw themau yr adran gynradd gyda dathliadau neu ddigwyddiadau cyffrous, lliwgar, llawn hwyl.

Enillwyr Gwobr Goffa Rhys Rubery

Elena Sullivan o flwyddyn 6 a Lloyd Tandy o flwyddyn 11 oedd enillwyr gwobrau Rhys Rubery eleni. Rhoddir y wobr yn flynynddol i ddisgybl sy'n ymgorffori gwir ysbryd yr ysgol a hynny er cof am Rhys. Diolch o galon i deulu Rhys ac elusen RR81 am eu nawdd unwaith eto eleni a diolch iddynt am eu haelioni trwy gydol y flwyddyn yn noddi amrywiol weithgareddau'r ysgol.

Gwobrau am gyfieithu

Mae llwyddiant y disgyblion yng nghystadleuaeth gyfieithu Anthea Bell, Prifysgol Rhydychen yn parhau. Llongyfarchiadau i Anton Thomas o flwyddyn 11 a enillodd wobr gyfieithu o'r Almaeneg am yr ail flwyddyn yn olynol, ac i Megan Philp blwyddyn 10 a Ffion Reid blwyddyn 9 am eu camp yn ennill gwobrau am gyfieithu o'r Ffrangeg i'r Gymraeg. Gwych ferched!

Teithiau Diwedd Tymor

Mwynhaodd disgyblion yr adran gynradd deithiau i leoliadau megis Parc Porthceri, Mynydd Caerffili a'r lle chwarae meddal lleol ym Mhontyclun, tra mai troi trwyn y bysiau i'r gorllewin wnaeth blynyddoedd 5, 6 a 7. Ymwelodd blynyddoedd 5 a 6 â thraeth Langland a'r Mwmbwls tra mai mwynhau'r heulwen yn Heatherton, Sir Benfro wnaeth blwyddyn 7 yn ystod wythnos olaf y tymor.

Taith i Benyfan a Gwobr Efydd Dug Caeredin

Rhan bwysig o gwricwlwm blwyddyn 8 yw'r alldaith flynyddol i Benyfan a braf unwaith eto cael y cyfle i "goncro'r" mynydd ac ymarfer sgiliau cyfeiriannu. Fe gafodd blwyddyn 9 y cyfle hefyd i ymuno â nhw eleni gan na fu'n bosib gwneud llynedd oherwydd cyfyngiadau covid. Mae blwyddyn 9 i'w canmol

hefyd am eu hymroddiad yn cwblhau alldeithiau gwobr Efydd Dug Caeredin yn ystod yr hanner tymor. Da iawn nhw!

Taith i Lanllyn a Phenwythnos ym Mae Caerdydd

Braf iawn oedd gallu ail-gydio mewn cyrsiau preswyl yn ystod y tymor. Treuliodd blwyddyn 6 benwythnos gwych yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd gan fwynhau atyniadau'r Bae a'r ddinas tra mai disgyblion blwyddyn 10 oedd wrth eu bodd yn treulio ychydig ddyddiau yn mwynhau gweithgareddau Gwersyll yr Urdd Glanllyn. Diolch i'r holl staff am roi o'u hamser.

Trefniadau Trosglwyddo blwyddyn 6

Braf oedd croesawu holl disgyblion blwyddyn 6 y clwstwr i'r ysgol ar gyfer deuddydd trosglwyddo ar ôl Sulgwyn.

Parhad tudalen 19 >

Ysgol Llanhari
(Parhad)

Edrychwn ymlaen yn fawr at eu croesawu i flwyddyn 7 ym mis Medi. Ymwelodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 7 â'u cyn ysgolion cynradd er mwyn rhannu gair o'u profiad â'r disgyblion ym mlwyddyn 6 a braf hefyd oedd y cyfle i fynd fel clwstwr i Brifysgol Abertawe i weithdy Technocamps ym mis Gorffennaf. Mwynhaodd pawb y cyfle i greu robotiaid a dysgu mwy am godio.

Llwyddiant yng Nghwpan pêl droed Rhondda Cynon Taf
Yn dilyn llwyddiant y tîm dan 15 oed, tîm pêl-droed dan 16 oed Llanhari yw pencampwyr cwpan Rhondda Cynon Taf. Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt!

Mabolgampau
Bu cyfle i'r holl ddisgyblion fwynhau mabolgampau diwedd tymor. Braf gweld y talentau a'r cyd-weithio yn y cystadlaethau tîm!

Prif Swyddogion ar gyfer mis Medi
Llongyfarchiadau mawr i Ela Edwards a Nia Smart ar gael eu dewis yn brif swyddogion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Lewis James-Shipley a Caitlin Jones fydd yn ddirprwyon iddynt. Edrychwn ymlaen at eich arweiniad a phob dymuniad da i chi'ch pedwar.

Croeso nôl!
Ar ôl y Sulgwyn, bu'n braf croesawu nifer o rieni nôl i'r ysgol – cynhaliwyd bore agored i rieni newydd y meithrin ac ar y pegwn arall, noson anffurfiol i ddarpar rieni y chweched dosbarth i drafod ein cynlluniau ar gyfer mis Medi. Ym mis Medi, byddwn yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru yn yr adran gynradd ac i flwyddyn 7 ac fe gynhaliwyd noson arbennig ar ddiwedd y tymor i rieni blwyddyn 7 presennol dan ofal y disgyblion a Miss Angharad Morgan, i ddangos enghreifftiau o waith y disgyblion ar hyd eleni wrth inni baratoi at ddyfodiad y cwricwlwm newydd. Bu'n braf croesawu pawb nôl i'n cymuned yn dilyn cyfnod anodd y cyfnod clo ac edrychwn ymlaen at wneud hyn yn amlach o fis Medi. Bydd y cyfle cyntaf i wneud hyn pnawn Mercher y 14eg o Fedi gyda pnawn agored yn y Meithrin. Mae croeso i unrhyw ddarpar rieni!

Cylch Meithrin Y Garth

Mae Cylch Meithrin newydd sbon yn cychwyn ym mis Medi. Bydd y Cylch ar agor o 8yb tan 4yp bob dydd. Lleolir y Cylch yn Neuadd Gymunedol Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf a bydd y Cylch yn cynnig gofal cofleidiol i blant meithrin Ysgol Gwaelod y Garth.

Person Cyswllt am ragor o wybodaeth -

Kim Lewis-Davies– 07462946181

Er mwyn cofrestru diddordeb ar gyfer mis Medi cysylltwch â

cylchmeithrinygarth@gmail.com
Trydar @CylchGarth

mudiad meithrin

TRAED MAWR

Clwb rhieni a phlant rhwng 18 a 36 mis oed

Dewch i gymdeithasu a siarad Cymraeg drwy chwarae, stori a chân

I gofrestru ewch i https://bookwhen.com/courses-garth-olwg

BOB DYDD MERCHER
14.09.22
AM 14 WYTHNOS
1.30-3.00yp
£28.00

Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc
St Illtyd Rd, Church Village, CF38 1RQ
01443 570075

Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg

Rydym yn RECRIWTIO!

SWYDDOG Y DDERBYNFA (RHAN AMSER)

YDYCH CHI'N...

- frwd?
- weithgar?
- gyfeillgar?

CYSYLLTWCH Â JAYNE AM FWY O WYBODAETH NEU I GAEL SGWRS PELLACH:

jayne.b.rogers@rctcbc.gov.uk
01443 570075

Sesiynau Blasu Yr Haf
Oedolion

Amserlen 08.08.22

Dydd Llun
10-12yp Barddoniaeth
10-12yp Sesiwn dechnoleg iPad
1-3yp Sesiwn technoleg tabledi
1-3yp Ysgrifennu creadigol

Dydd Mawrth
10-12 yp Ffotograffiaeth digidol
10-1yp Ymwybyddiaeth alergeddau
1-3yp 'Photoshop' i ddechreuwyr
2-4yp CPR a deffib

Dydd Mercher
10-12 yp Ailgylchu dillad
10-1yp STEM
1-3 yp CPR a diffib
1-3yp Clytwaith

Dydd Iau
10-12yp Coginio 'Slow cooker'
9.30-4.30yp Lefel 3 cymorth cyntaf
1-3yp Trefnu blodau

Dydd Gwener
10-2yp Technegau ymlacio
Os hoffech ymuno â'r sesiynau ond yn chwilio am weithgareddau i'r plant, mae digonedd o ddewis. Gweler yr amserlen i blant.

I archebu lle ewch i: www.bookwhen.com/gartholwg

AM DDIM!!

Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc
Heol St Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ
01443 570075

Canolfan Garth Olwg Centre

RE-GARTH-GYLCHU

Cyfle i gael gwisg ysgol am ddim! Bydd bwrdd llawn dillad 5-13 oed ar gael yn y dderbynfa o'r 27 Gorffennaf a thrwy'r haf

Dewch i Ganolfan Garth Olwg am sbec!
9yb-5yh Llun i Gwener

Ysgol Garth Olwg · Canolfan Garth Olwg · Rhondda Cynon Taf

Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc
Heol St Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ
01443 570075